Annwyl Bawb

E-FWLETIN 12 MEHEFIN 2008

Ymddiheuriadau am fod ychydig yn hwyr gyda'r e-fwletin hwn – rhaid beio'r cyfrifiadur newydd a'i anfodlonrwydd i siarad â'r hen gyfrifiadur!

Nodir isod yr hyn sy'n digwydd yma dros yr wythnosau nesaf.

- Soniwyd eisoes am Theatr Hijinx sy'n perfformio drama Glenys Evans ***Full Circle*** yma am 1.30 brynhawn yfory (17 Mehefin). Cofiwch taw dyma'r unig gyfle gewch chi i weld y ddrama hon yn Aberystwyth; ffoniwch felly os am archebu tocynnau (pris: £6/£4).

- Dydd Iau, 19 Mehefin, mae **Prifysgol y Drydedd Oes** yn cynnal un o'u digwyddiadau yma am 2 o'r gloch. Mudiad ar gyfer pobl wedi ymddeol a'r rhai dros 50 oed yw P3O sy'n cynnig cyfleoedd addysgol, creadigol a hamdden mewn awyrgylch cyfeillgar.

Heblaw am y rhain, a'r gweithgareddau wythnosol arferol, tawel iawn yw hi yma o ran digwyddiadau i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n gyfnod tu hwnt o brysur o ran pwyllgorau a chyfarfodydd.

Braf yw gweld bod cynifer o fudiadau yn defnyddio Morlan yn rheolaidd erbyn hyn fel lleoliad ar gyfer cynnal eu cyfarfodydd. Nid mudiadau lleol yn unig chwaith ond mudiadau cenedlaethol megis Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Cynghrair Cyhoeddwyr a Chyfansoddwyr Cerddoriaeth Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Cymdeithas Addysg Ewropeaidd a'r Cynulliad Cenedlaethol, i enwi ond rhai. Y mae ein Haelod Seneddol a'n Haelod Cynulliad hefyd yn cynnal Cymorthfeydd yma'n achlysurol.

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych chi'n dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau / Best wishes

Carol Jenkins
Rheolwr